

Arch Noa



TRUEWAY KIDS.COM

Cyflwyniad

Yr wythnos hon byddwn yn dysgu am stori boblogaidd Arch Noa o Genesis 6-7. Y prif bwyntiau rydym am eu dysgu yw:

- Mae Duw yn cymryd pechod o ddifrif
- Mae'n bwysig ufuddhau i Dduw
- Mae Duw yn darparu ffordd i'n hachub. Gallwn fod yn ddiogel yn Iesu.



Canllaw Gwersi

Mae'n debyg y bydd gan eich plentyn ryw faint o wybodaeth eisoes am Arch Noa gan ei bod yn un o'r straeon hynny y mae plant yn gwybod amdani pa un ai ydynt yn mynd i gapel neu beidio. Serch hynny, dechreuwch drwy ailddarllen y darn.

Dechreuwch drwy atgoffa'r plant bod pechod wedi dod i mewn i'r byd pan fwytodd Adda ac Efa 'r ffrwyth. Gofynnwch i'ch plentyn enwi rai pethau pechadurus y mae pobl yn eu gwneud. Eglurwch sut roedd pechod pobl yn gwneud Duw yn drist.

Roedd Noa yn caru Duw ac yn byw'n wahanol i bawb arall. Meddyliwch am rai ffyrdd y gelwir Cristnogion i fod yn wahanol. Atgoffwch eich plentyn ei bod yn dda bod yn wahanol pan fyddant yn gweld eraill yn gwneud rhywbeth o'i le.

Rhannwch sut y galwodd Duw Noa i adeiladu arch. Ufuddhaodd Noa yn ufuddhau i Dduw er nad oedd erioed wedi gweld glaw ac y byddai adeiladu arch yn llawer o waith. Rhannwch adeg pan ofynnodd Duw i chi wneud rhywbeth a sut y gwnaethoch ufuddhau iddo. Gallai fod yn fynd ar daith genhadol, roi rhywbeth i ffwrdd, neu faddau i rywun sy wedi'ch eich brifo. Canolbwyntiwch ar sut mae Duw yn ein galluogi i ufuddhau iddo a gwneud pethau na allem eu gwneud yn ein nerth ein hunain.


Rhowch gyfarwyddyd syml i'ch plentyn i adeiladu rhywbeth neu dynnu llun. Eglurwch sut roedd yn rhaid iddyn nhw ddilyn y cyfarwyddiadau'n ofalus. Rhannwch sut y rhoddodd Duw gyfarwyddiadau clir i Noa ar sut i adeiladu'r arch. Atgoffwch eich plentyn fod Duw yn rhoi cyfarwyddiadau clir i ni sut i fyw yn y Beibl.


Dywedodd Noa wrth bobl am y Dilyw hyd yn oed pan nad oeddent yn ei gredu a hyd yn oed yn ei watwar. Weithiau, pan fyddwn yn rhannu'r efengyl ag eraill, ni fyddant yn ein credu ni 'chwaith. Ond ni ddylem byth roi'r gorau i rannu'r Efengyl.

Yn y wers hon, mae dwy ffordd o wneud y stori'n fwy rhyngweithiol a denu sylw 'ch plentyn

1. Mae cyfarwyddiadau yn y wers sut i wneud ffon law. Os gwnewch un ymlaen llaw, wrth i chi ddarllen y stori, bob tro bydd eich plentyn yn clywed y geiriau 'glaw' neu 'ddŵr', dylent droi'r ffon law drosodd i wneud sŵn glaw.

.2 Actiwch y stori gan ddefnyddio crefft yr wythnos hon. Gellir defnyddio pob anifail ar ffyn lolipop fel pypedau fel y gallwch lenwi'r arch. Yna defnyddiwch yr arch fel pyped, gan siglo i fyny ac i lawr ar y môr ac yn y pen draw orffwys ar dir sych. Yna gallech gasglu'r anifeiliaid at ei gilydd, gan fyfyrto ar sut yr arbedodd Duw bob un ohonynt.





Roedd yn bwrw glaw ac yn bwrw glaw nes bo'r byd i gyd dan ddwr.

Yn fuan doedd dim byd ar ôl ar y tir.


Ond cadwodd Duw Noa a'i deulu yn ddiogel yn yr arch.



Un diwrnod, edrychodd Duw ar y byd ac roedd yn drist.

Roedd y bobl i gyd yn gwneud pethau drwg.

Dim ond Noa oedd yn dda. Dywedodd Duw wrth Noa am adeiladu cwch arbennig i achub ei hun a'i deulu rhag y Dilyw.



Ufuddhaodd Noa i Dduw.

Dilynodd yr holl
gyfarwyddiadau a'r
mesuriadau a roddodd Duw
iddo.

Flwyddyn ar ôl blwyddyn
bu'n gweithio'n galed i
adeiladu'r arch nes iddi gael
ei gorffen.



Aeth Noa a'i deulu i mewn i'r
arch,

ynghyd â dau o bob anifail.

Pan oeddent i gyd yn
ddiogel y tu mewn, caeodd
Duw y drws.

Dechreuodd fwrw glaw.

Gwnewch eich mesurydd glaw eich hun

Pan oedd Noah yn yr arch, bu'n bwrw glaw am ddeugain diwrnod a deugain noson. Faint o law fyddwch chi'n ei gael yr wythnos hon? Os hoffech gadw golwg ar faint o law rydych chi'n ei gael, gwnewch y mesurydd glaw syml hwn — y cyfan sydd ei angen arnoch yw ychydig o ddeunyddiau syml ac ychydig o amser.

Beth fydd ei angen arnoch:

- Potel blastig wag (1 neu 2 litr)
- Siswrn
- Tâp gludiog
- Mesurydd
- Papur
- Pensil

Beth i'w wneud:

1. Torrwch o amgylch y botel blastig tua dwy ran o dair o'r ffordd i fyny.
2. Trowch ran uchaf y botel wyneb i waered a'i gosod y tu mewn i'r rhan isaf i wneud tendish. Rhwch yn ei le gan ddefnyddio'r tâp.
3. Marciwch cm ar ddarn o dâp, gan ddefnyddio pren mesur, a'i osod ar ochr y botel.
4. Dewch o hyd i le y tu allan i roi eich mesurydd glaw. Rhaid iddo fod yn agored ac i ffwrdd o goed.
5. Palwch dwll a chladdu eich mesurydd glaw fel bod y top tua 5 cm allan o'r ddaear. Os na allwch ei gladdu, ceisiwch ei roi mewn pot, fel nad yw'n chwythu drosodd.
6. Archwiliwch y mesurydd glaw bob dydd yr un amser i fesur faint o law sy wedi'i gasglu. Gwagiwch y botel.
7. Defnyddiwch y dyddiadur tywydd yn y wers i gofnodi faint roedd hi wedi bwrw glaw.



Gwnewch eich ffon law eich hun


Trowch rolyn tywel papur yn ffon law gyda thâp dwythell, ffoil alwminiwm a reis. Defnyddiwch ef wrth ddarllen hanes arch Noa pryd bynnag y clywch y geiriau glaw neu ddŵr.

Beth fydd ei angen arnoch:

- Rhôl tywel papur
- Cardfwrdd
- Tâp
- Reis neu ffa sych
- Ffoil alwminiwm

Beth i'w wneud:

1. Rhwch dâp dwyochrog ar un ochr i'r gofrestr i gau'r diwedd.
2. Twistiwch rywfaint o ffoil alwminiwm a'i roi yn y tiwb .
3. Arllwyswch ychydig o reis neu ffa sych i mewn.
4. Tâpiwch y pen arall.
5. Addurnwch y tu allan i'r tiwb cardbord.
6. Mae'r ffon law yn barod i'w defnyddio.



Suddo neu arnofio

Pam wnaeth Duw ddweud wrth Noa am adeiladu Arch?

Bydd yr arbrawf suddo neu arnofio hwyliog hwn yn annog eich plentyn i wneud rhagfynegiadau ac arsylwadau am fywiogrwydd a dwydd.

Yn yr awyr agored gallech ddefnyddio bwced neu bwll padlo bach. Dan do, defnyddiwch sinc y gegin, baddon neu ar y llawr focs storio neu fasn wedi'i lenwi â dŵr .



Casglwch deganau gwrth-ddŵr ac eitemau cartref. Er enghraifft:

Eitemau sy'n suddo: metel, darnau arian, cerrig, car bach, allweddi a marblis.

Eitemau sy'n arnofio: blociau plastig, ffon Popsicle, pêl cotwm, plu, corciau, ewyn, creon a phêl

Gofynnwch i'ch plentyn ragweld a fydd yr eitem yn arnofio neu'n suddo cyn ei roi yn y dŵr.

Ar ddiwedd yr arbrawf, gallwch bwysleisio'r ffaith nad maint y gwrthrych sy'n penderfynu a fydd yn suddo neu'n arnofio, beth sy'n bwysig yw deunydd y gwrthrych. Roedd Arch Noa yn enfawr ac yn drwm. Ond roedd yn arnofio am fod Noa wedi ufuddhau i Dduw ac wedi dilyn ei gyfarwyddyd i'w adeiladu o bren a'i wneud yn ddiddos.

Dod o hyd i ddau o'r un math

Chwaraewch y gêm hon y tu mewn neu tu allan. Mae'r syniad yn syml, cymerwch eich tro gyda'ch plentyn i ddod o hyd i un gwrthrych. Gall fod yn unrhyw beth, carreg, hosan,tegan.

Yna mae angen i'r person arall ddod o hyd i eitem gyfatebol e.e. carreg neu hosan arall.

I'w gwneud yn fwy diddorol gallech osod amser arbennig, fel bod yn rhaid dod o hyd i'r eitem gyfatebol mewn x eiliad.

Dyddiadur Tywydd





	Heddiw roedd yn ...	Bwriodd hi..... cm o law
Diwrnod 1		
Diwrnod 2		
Diwrnod 3		
Diwrnod 4		
Diwrnod 5		
Diwrnod 6		
Diwrnod 7		

Gêm pâr + snap







Rhowch gylch o amgylch yr
anifeiliaid y mae'n rhaid i Noa fynd
â nhw i'r arch.






Dywedodd Duw wrth Noa "Dw i am i ti fynd a dau o bob
math o adar, pob math o anifeiliaid, a phob math
ymhusgiaid i mewn i'r arch." - Genesis 6:20

Helpwch Noa i ddod o hyd i'r
bwyd cywir ar gyfer pob anifail.



A gwnewch yn siŵr eich bod yn cymryd digon o fwyd
i'ch teulu ac i'r holl anifeiliaid. - Genesis 6:21



Crefft Arch Noa



Gwnewch Arch Noa gan ddefnyddio plât papur a ffyn lolipop.

Beth fydd ei angen arnoch:

- 2 blat papur
- 2 gopi o dempled crefft
- 20 ffyn lolipop (lliw neu naturiol)
- Paent brown a glas.
- Brwsh paent
- Siswrn
- Glud PVA

Beth i'w wneud:


1. Torrwch un plât papur yn ei hanner.

2. Paentiwch y tu mewn i'r plât papur cyfan yn las a'r tu allan i'r hanner plât papur yn frown. Y plât brown fydd yr arch. Mae croeso i chi ychwanegu manylion ychwanegol.


3. Gludwch y ddau blat y tu mewn gyda'i gilydd a gadewch iddynt sychu.

4. Torrwch anifeiliaid allan o dempled a'u cadw ar ffyn lolipop.


5. Unwaith y bydd y glud yn sych, mae'r anifail yn glynu y tu mewn i'r arch.




Templed crefft





Argraffu 2 gopi











Amser Addoli

Argymhell caneuon addoli. Heb ei gynhyrchu gan Trueway Kids. Fideos YouTube i'w defnyddio at ddefnydd personol yn unig.

Arch Noa - TruewayKids

<https://youtu.be/BHDBgGVCTBc>

Rise and Shine

<https://youtu.be/DSxd9JVE3r4>

Animals Went In Two By Two

<https://youtu.be/PivD0QH1RQ0>



Gweddi

Gofynnwch i Dduw eich helpu i ufuddhau iddo

Diolchwch i Dduw am ddarparu ffordd i gael eich achub.

Gweddiwch y bydd eraill yn credu Gair Duw.

Gwers nesaf

Yr enfys - Duw yn cadw ei addewidion

Lawrlwythwch fwy o weithgareddau
AM DDIM o truewaykids.com

